Wele'n gwawrio

'Wele'n gwawrio ddydd i'w gofio, / Geni Seilo, gorau swydd ...' Gorweddai Bella yn ei gwely yn y cartref, a'r nos yn hir o'i blaen. Bu'r hen garol yn troi a throi yn ei phen dros gyfnod y Nadolig, ac yfory roedd hi'n Galan, ac felly'n hen bryd i'r dydd i'w gofio wawrio! Ond roedd hi'n ddigon cysurus ac, yn wir, ni faliai fawr am yr anhunedd – yn y lle yma, roedd digon o gyfle i bendwmpian yn ystod y dydd. Ceisiai fynd drwy ddigwyddiadau'r diwrnod blaenorol yn ei phen – weithiau âi yn ôl i gysgu wrth wneud hynny. Ond prin oedd y digwyddiadau – ambell i ymwelydd triw o'r capel yn awr ac yn y man. Byddai'n synfyfyrio'n aml am y gorffennol, wrth gwrs, a heno, llais ei mam a glywai yn canu ei hoff garol. '... Hen addewid Eden odiaeth ...'

Roedd gan Bella hithau ferch. Gwenodd, a chynhesodd ei chalon wrth feddwl am Nel. Cynhesu er y brath wrth feddwl mor bell i ffwrdd oedd hi. Pan adawodd ddwy flynedd yn ôl addawodd y byddai yn ei hôl yn flynyddol. Ond roedd Seland Newydd mor bell, a theithio mor gostus. Fyddai Nel byth wedi mynd ond bod rhaid – Ieuan, ei mab, wedi colli ei wraig i ganser, a dau fab i'w magu, a Nel yn cael ei rhwygo rhwng anghenion ei mam a'i gofid am Ieuan a'r bechgyn.

Roedd hi ar wawrio. Efallai y cysgai rŵan am sbel ...

Curo ysgafn ar y drws a'i deffrodd, a'r ofalwraig yn dod i mewn â'r hambwrdd brecwast. 'Blwyddyn Newydd Dda, Bella! Dydd Calan – mae'n siŵr y bydd 'na lot o ymwelwyr heddiw.'

Dim ond un ymwelydd roedd Bella am ei gweld, a go brin y deuai Nel annwyl heddiw. Ond eleni, efallai y cadwai'r addewid? Dyna beth fyddai gwawrio dydd i'w gofio.

GLENYS ROBERTS

Enillydd Coron Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent, 2010.

Gwawr newydd

Teflais fy mag chwaraeon dros fy ysgwydd ac anelu am y drws ffrynt. Ond nid cyn iddi **hi** weiddi o dop y landin:

'Hei, pryd ti'n dod 'nôl? Ma' ishe i ti dalu dy siâr o'r bil lectric cyn diwedd y mis. Paid ti trial osgoi talu dy fils fel y Meic 'na.'

'Nag, nag, nag' yn atsain drwy fy mhen wrth loncian lawr y stryd at y Ganolfan Hamdden.

Cofiais fel roedd y pedwar ohonom yn ffrindiau digon da, flwyddyn yn ôl, pan symudon ni i'r tŷ. Ond roedd madam Menna a'i rhestrau diddiwedd yn nodi dyddiadau, dyletswyddau a digwyddiadau pawb yn fy ngyrru i'n nyts!

* * *

Roedd Jac y rheolwr yn pwyntio at ei wats pan gyrhaeddais y Ganolfan. Sticiais fy nhafod allan a chodi dau fys fel dwy glust uwch fy mhen.

'O, ti'n dipyn o jôcer heddi 'to,' meddai gan chwerthin. 'Cer at weddill y tîm i ystwytho ac ymarfer 'da'r bêl cyn mynd ar y bŷs. Mae'n siwrne go hir heddi.'

* * *

Ar ôl tair buddugoliaeth, roedd y tîm mewn hwyliau da.

'Dewch i ni ga'l dangos i'r Gogs 'ma shwt ma Hwntws yn dathlu,' meddai Capten Ceri, gan arwain y tîm o un dafarn i'r llall ar y Maes.

* * *

Beth?... Ble?... Fy ffôn! Ble ma' fe? Twriais amdano gan ei ddarganfod dan y cyrff blinedig a oedd yn dal i gysgu'n drwm yn yr hostel.

'Siân! Beth sy'n bod? Hei ... cwla lawr ... sa i'n deall gair ohonot ti! Ti yn yr ysbyty? ... nawr ... reit ... Ond fi lan yng Nghaernarfon gyda'r tîm ... eith dwy, dair awr cyn galla i gyrra'dd nôl. Gwnaf fy ngore. Cymer ofal.'

* * *

Deliais y Traws Cambria am Gaerfyrddin gan feddwl am Siân a'i gofidiau. Druan â hi. Dim ond lliw sodle *trainers* Meic welodd Siân pan wedodd hi wrtho fe bod hi'n feichiog. Pwy fyddai'n gallu gwneud y fath beth i ferch mor annwyl â Siân? "Aw!" ebychais. Roedd fy ewinedd wedi creu rhychau dwfn yng nghledrau fy nwylo wrth feddwl am y diawl hunanol.

* * *

Roedd hi'n rhynllyd pan ddisgynnais o'r bws, a'r awyr yn llwydaidd gyda chymylau bygythiol. Glynai rhimyn o gesair yn ystyfnig o gwmpas waliau'r ysbyty, ac yna ... mewn cornel cysgodol, roedd pentwr unig o flodau, a'u pennau eiddil yn mynnu dal eu tir er gwaethaf yr oerni a'r tywydd garw. Fel fflach, roedd yr atebion i gyd yn hollol glir.

* * *

Cyrhaeddais y ward lle'r oedd Siân – ac yno wrth droed y gwely roedd cot babi. Rhedais ati a gafael yn dynn, dynn amdani. Llifodd ein dagrau yn un, ac o fewn eiliadau roeddwn yn tyngu llw o ffyddlondeb oes iddi am fy mod yn ei charu.

* * *

Cerddodd y nyrs ymaith gan adael y ddwy yn magu baban, y lili wen fach, mewn breichiau o gariad.

GILLIAN JONES

Enillydd Cadair Merched y Wawr, Gŵyl Haf 2017